Cymdeithas Brodwaith Cymru

# CYLCHLYTHYR GAEAF 2023 - 24

## Brenda Wyn Jones 1934 – 2024

Bu farw ein Llywydd Cenedlaethol Brenda Wyn Jones ym mis Tachwedd 2023 yn 89 oed a dyma fraslun o'i hanes.
Magwyd ac addysgwyd hi yn ardal Bethesda cyn iddi ennill ysgoloriaeth i fynd i Brifysgol Aberystwyth i astudio Cymraeg a Cherdd gan raddio oddiyno â gradd dosbarth cyntaf yn 1954. Aeth ymlaen wedyn i ddysgu yn ysgol Dr Williams, Dolgellau a thra yno dechrau dysgu chwarae'r delyn. Dyna hefyd pryd y cyfarfu â Buckley Wyn Jones ddaeth yn ŵr iddi yn 1961. Ar ol ryw 6 mlynedd yn dysgu yng Nghaerdydd daeth y ddau yn ol i Wynedd a Bethesda a bu Brenda yn dysgu yn ysgol Bodedern cyn cael ei phenodi yn ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Normal, Bangor. Bu yno tan iddi ymddeol yn 1994. Wedi hynny bu'n addasu llyfrau Saesneg i blant yn y Gymraeg - yn ei plith Tomos y Tanc ac hefyd yn ysgrifennu llyfrau ar gyfer plant.
Roedd ganddi lu o ddiddordebau yn cynnwys tenis (a Wimbledon yn arbennig), hefyd mynd ar fordeithiau, sgïo a golygu'r papur bro "Llais Ogwan". Yn dilyn salwch creulon trodd at waith croesbwyth cain a bu'n un o sefydlwyr Cymdeithas Brodwaith Cymru a dod yn Llywydd Cenedlaethol y Gymdeithas.
Disgrifir hi fel person unigryw, annwyl, clên, gostyngedig a chariadus gan eu chydnabod a'i theulu ac estynnwn ein cydymdeimlad â hwythau yn eu galar



Gwaith Croesbwyth Brenda Wyn Jones

### CWRS PLAS TAN Y BWLCH

Oherwydd fod y rhifau yn isel i aros ym Mhlas Tan y Bwlch ar gyfer y Cwrs Preswyl ym mis Mawrth penderfynnwyd gohirio'r cwrs tan flwyddyn nesaf.

### LLYFRYN TERMAU CYMRAEG BRODWAITH

Bydd y llyfryn yn cael ei argraffu yn fuan gan obeithio y bydd copi meddal ar gael am £1 yr un yn yr Arddangosfa yng Nghricieth ym mis Mawrth.

### ARDDANGOSFA BRODWAITH

## Ardal Dwyfor

Yn Bwyty Dylan's Cricieth

**Dydd Sadwrn**

**23 o Fawrth 2024**

o 10 y bore tan 4 y prynhawn.
Bydd raffl i gefnogi
Elusen Aren Ysbyty Gwynedd er modd y cleifion.
Bydd lluniaeth ar gael yn y
bwyty trwy'r dydd.AA

## GAIR O'R GADAIR

Diwedd Blwyddyn a Dechrau Blwyddyn

Mae'n siwr eich bod chithau, fel finnau , wrth edrych yn ôl ar 2023 yn gwerthfawrogi cael bod yn aelod o Gymdeithas Brodwaith Cymru - cwrs Tan y Bwlch dan ofal Ffion Gwyn ym mis Mawrth, ôl gwaith cymaint o'n haelodau ym mhabell Merched y Wawr ym Moduan ym mis Awst ac yna'r Arddangosfa wych yn Y Morlan, Aberystwyth ym mis Medi .

Pinacl y flwyddyn i mi yn bersonol fu'r fraint inni, fel cymdeithas, gael cynnig Ysgoloriaeth 2023 i Lowri James o'r Porth, y Rhondda. Fu ymgeisydd mwy teilwng! Mae gwaith Lowri yn gwbl arbennig a'i gwerthfawrogiad o'r ysgoloriaeth a datblygiad ei gyrfa yn fwy na theilyngu'n bodolaeth ni fel Cymdeithas!

Ar ddiwedd fy nhymor mae'n rhaid diolch i Esyllt am roi cyflwyniad mor effeithiol i'r Gymdeithas ar Gweplyfr a llwyddo hefyd i ddwyn mwy o sylw at yr Ysgoloriaeth. Mi fyddwn i wedi bod yn y niwl yn aml heb ei harweiniad. Diolch yn fawr, Esyllt.

Yma yn Nwyfor rydym ni'n edrych ymlaen i'ch croesawu i gyd i'n harddangosfa ninnau yng Ngwesty Dylan's ar Ddydd Sadwrn y 23ain o Fawrth.

Fy nymuniadau gorau i'n swyddogion newydd ac i'n haelodau i gyd ym 2024 .

Eirwen

# O Ardal i Ardal

## CANGEN MÔN/ARFON

Ar gychwyn blwyddyn newydd fel hyn dyma i chi ychydig o hanes ein gweithgareddau yn 2023.

Cychwynnodd y flwyddyn gyda cinio yn Gwesty Carreg Bran. Cyfle i ni sgwrsio a thrafod y gwaith llaw a gynhyrchwyd ers y tro diwethaf i ni gyfarfod.

Creu sêr trwy blygu defnydd o dan arweiniad Edwina Crump a gafwyd yn mis Chwefror. Bu i nifer dda o'r aelodau fynd adref gyda dwy seren yn barod ar gyfer Nadolig 2023.

Ym mis Ebrill cawsom gwrs gan Anwen ar y dull Sashiko o frodweithio. Rhannodd Anwen ei gwybodaeth am yr hanes diddorol a llwyddodd pawb i greu bag y maint perffaith i gario ' Caneuon Ffydd' ynddo. Roedd y Sashisko yn drawiadol iawn yn y lliwiau traddodiadol o las a gwyn.

Yn Mehefin daeth Margaret Jones a Jen Morris atom i'n harwain mewn gweithdy o beintio a phwytho ar sidan. Yn gyntaf roedd rhaid penderfynu pa eiriau neu lun i'w ddehongli yn y gwaith e.e. croeso, cariad neu enw lle. Yna amlinellu gyda gutta, dewis lliwiau a peintio'r sidan, brodweithio i addurno yna fframio'r darn gorffenedig.

Wedi seibiant dros yr haf ail gychwynnodd y cyrsiau gyda gweithdy peintio a brodio o dan ofal Kate Philbin. I gychwyn yr oeddynt yn cael arbrofi wrth beintio darn o blastig gan ddefnydd roller gan fasgio rhannau ohono gyda eitemau megis plu, dail ac unrhyw eitem arall oeddem wedi dod gyda ni. Yna roeddem yn rhoi darn o ddefnydd plaen ar y plastig i'w beintio, roedd y darnau gorffenedig yn ddifyr iawn gan nad oedd syniad sut oedd y darn gorffenedig yn mynd i

### GWAITH AELODAU CANGEN MÔN AC ARFON







Cwrs cwblhau neu gwneud



edrych. Yn y prynhawn ar ôl i'r gwaith sychu buom yn brodio ar un o'r darnau a greuwyd, Cwrs cwblhau neu nweud cerdyn mewn croes bwyth oedd yr arlwy ym mis Hydref. Daeth Anwen ac amrywiaeth o gynlluniau croes bwyth i ni greu cerdyn boed yn un Nadolig neu gwahanol flodau. Diddorol oedd dysgu sut i ddechrau'r gwaith heb gael cwlwm ar y cefn. Mae llawer i'w ddysgu ymhob cwrs..A paratoi at y Nadolig a gafwyd ym mis Tachwedd dan arweiniad Alison Chapman. Bu'r aelodau yn creu coed Nadolig allan o ddefnydd i'w hongian ar y goden neu eu rhoi mewn pot bach teracotta.



Braf oedd cael croesawu Gladys yn ôl atom ar ôl ei thriniaeth meddygol dros y flwyddyn diwethaf. Yn ystod y cyfarfod yma clywsom am farwolaeth un o'n haelodau sef Brenda Wyn Jones. Bu Brenda yn flaenllaw yn sefydlu cangen Môn/Arfon ac ei phennaf fwynhad oedd gwaith croes bwyth ond yn barod iawn i gymryd rhan mewn gweithdai eraill ar yr amod eu bod yn waith llawn. Yn anffodus oherwydd dirywiad yn ei golwg nid oedd yn dod i'r cyrsiau ers rhai blynyddoedd ond bob amser a diddordeb yn yr hyn oedd yn digwydd pan fyddai ein llwybrau yn cwrdd. Rydym yn cydymdeimlo yn fawr a theulu Brenda.

Yna ddechrau Rhagfyr daeth Angharad Rhys atom i ddangos i ni sut i wneud Coeden Botwm Dorset. Diddorol oedd dysgu am yr hanes a'r dechneg. Llwyddodd pawb i gwblhau botymau bach unigryw.

Er fod 2023 wedi bod yn brysur o ran cyrsiau rydym yn cael seibiant ar ddechrau y flwyddyn.

Bydd gweithgareddau y gymdeithas ym Môn/Arfon yn ail gychwyn ym mis Chwefror gyda cinio blynyddol. Lleoliad i'w drefnu.

Dyma weddill y cyrsiau 2024 hyd y cyfnod tan yr haf.

Mawrth 2, 2024 – Clytwaith gyda Mim Roberts – cychwyn am 10.30 – 3.30pm

Ebrill 6, 2024 – gwaith peiriant gyda Eirlys Savage

Mai 4, 2024 – Brodio ar gingham – gyda Anwen

Cyrsiau yn cael eu cynnal yn neuadd yr henoed Llangristiolus am 10am – 3pm os na nodir yn wahanol.

Dymuniadau gorau i bawb am flwyddyn newydd dda a digon o gyfle i frodio neu wnio.

---

## CANGEN Y CANOLBARTH

**Rhaglen 2024**

20 Ionawr - Gwaith peiriant gyda Meleri Jones
24 Chwefror - Diwrnod yng ngofal Diana Jones
13 Ebrill - Brodio gyda Marian James

Yn dilyn ein harddangosfa yn Aberystwyth ac wedi i gyfyngiadau Covid ddod i ben, roedd yn bosib wedyn inni ail-afael yn ein rhaglen weithgareddau. Cawsom ddau gwrs cyn Nadolig 2022. Yn y cyntaf cawsom wneud bagiau bychan gan yn gyntaf greu'r defnydd gyda sbarion gwastraff. Eryl a Diana oedd yn gyfrifol am baratoi'r cwrs.

Ym mis Hydref cawsom gwrs yng ngofal Beti i wneud torchau Nadolig, eto trwy ddefnyddio defnydd gwastraff.

Mae wedi mynd yn draddodiad gennym i ofyn i Meleri Jones i ddod atom ar ddechrau blwyddyn i wneud gwaith gan ddefnyddio'r peiriant gwnïo. Y dasg a ddewisodd ar ein cyfer y tro hwn oedd basgedi bara. Llwyddom wneud un fach ac un fawr yn ystod y dydd.

Ym mis Mawrth daeth Ann Till atom. Roedd Ann yn un o'n haelodau ffyddlon cyn iddi symud yn ôl i'r Gogledd. Y dasg gyda hi oedd gwneud darn o waith Assissi. Cawsom amrywiaeth o batrymau ganddi ac oherwydd fod pawb wedi dewis lliwiau cefndir ac edau wahanol roedd pob un yn unigryw.

Cawsom seibiant o wnïo dros yr haf, ond aethom ar daith i'r Drenewydd ar y trên i weld arddangosfa oedd yn olrhain cysylltiad yr ardal â Laura Ashley. Roedd gan bob un ohonom atgof o wisgo rhyw ddilledyn oedd wedi'i wneud gan gwmni Laura Ashley ac amryw lwcus ohonom â stôr o ddefnyddiau (nad oedd wedi cyrraedd y safon) oedd wedi bod yn werth y byd! Prynhawn hiraethlon a rhamantus!

Fis Medi cawsom gwmni Eirlys Savage i wneud panel bychan crwn gan ddefnyddio gwaith brodio a botymau. Roedd amrywiaeth yma eto ar ddiwedd y dydd, ac erbyn hyn mae llawer ohonynt mewn ffrâm. Diwrnod hamddenol ond er hynny yn un cynhyrchiol.
I orffen y flwyddyn aethom ati i wneud addurniadau Nadolig dan ofal tair o'n haelodau, sef Elisabeth, Eryl a Mair. Ar ddiwedd y prynhawn roedd llond bwrdd o addurniadau wedi'u cwblhau, yn gracyrs, coed Nadolig a Santa i'w roi ar y botel win.

---

## CANGEN MEIRIONYDD

Gohiriwyd ein dosbarth am wythnos ym mis Ionawr 2023 oherwydd eira. Cawsom ddosbarth clwtwaith dan arweiniad Mair Rees ar yr 28ain. Creuwyd amrywiaith o eitemau gyda'r clwtwaith gan ein aelodau, cas ffon, bag molchi ac cwningen glwt yn eu musg (gweler y lluniau ).
Ym mis Ebrill mentrodd rhai ohonom, dan arweiniad Mair eto, ar waith ffeltio ac bu eraill yn gorffen gwaith (gweler llun aderyn du - esiampl o waith du ).
Ym mis Awst, ar ol hir bendroni, penderfynodd Mair Rees nad oedd mwyach mewn sefyllfa I diwtora'r dosbarth ac roedd hyn yn sioc mawr i ni, roeddem wedi wir werthfawrogi ei harweiniad a'i gofal ohonom. Roeddem wedi bod yn dibynu gymaint ar ei sgiliau a'i ymrwymiad i'r dosbarthiadau fel ein bod yn ei chael hi'n anodd gweld y ffordd ymlaen.
Penderfynwyd y byddai ein dosbarth ym mis Medi yn un eithaf sylfaennol ac roeddem yn ddiolchgar iawn i Gwyneth am gamu i'r bwlch i'n arwain gyda dosbarth Sampler Croesbwyth a cafwyd mwynhad ac hefyd trafodaeth ynghylch a'r ffordd ymlaen.
Danfonwyd ein diolch a'n dymuniadau gorau i Mair Rees, ac hefyd llongyfarchiadau ar ddathlu penblwydd arbennig.
Cafwyd wybod bod pecynnau ar y gweill gan Mair ar gyfer ein dosbarth, ardduniadau Nadoligaidd, ym mis Tachwedd ac cytunwyd y byddem yn helpu ein gilydd yn anffurfiol yn y dosbarth honno. Braf cael adrodd fod hyn yn llwyddianus a cafwyd sesiwn cyfeillgar iawn. Er fod y gwaith stwmp, ardduniad Celyn, a'r pluen eira mewn gwaith Aida wedi bod yn eithaf heriol mae abell esiampl wedi eu cwblhau (gweler y lluniau amgaedig).
Braf cael adrodd fod dwy arall o'n cwmni, Medwen a Rowena, am gynnal ein dosbarth, gwaith Nodwydd Cloi (Locker Needle), ym mis Ionawr ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y dosbarth.
Ym mis Ebrill byddwn dan arweiniad Gwenfyl a Joan, nid ydynt wedi datgelu eto pa bwnc byddwn yn ei ddysgu ond mae'n siwr o fod yn ddiddorol.
Byddwn yn gobeithio gwahodd eraill i rannu sgiliau gyda ni yn y dyfodol, felly gadewch i ni wybod am unrhyw bwnc gallwch ei gynnig. Diolch i bawb am eu cyfraniad ac i Gwyneth, Rhiannon, Iona, Medwen ac Eiriola am y lluniau o'u gwaith.

## GWAITH AELODAU CANGEN MEIRIONYDD








## ARDDANGOSFA ABERYSTWYTH

Roedd Arddangosfa'r Canolbarth yn werth ei gweld dyma ychydig o'u gwaith cywrain









Hydref






Gwanwy



**Dymunaf ymuno â Chymdeithas Brodwaith Cymru**

Enw: ……………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad:……………………………………………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………………………………………………………..

Côd Post:……………………………… Ffôn:…………………………………………………

Cyfeiriad e-bost ………………………………………………………………………………………

Rhif aelodaeth:………………………………………… (i'w lenwi gan y Gymdeithas).

Llenwch y Gorchymyn Archeb Sefydlog isod a'i dychwelyd at
Mrs Eirian A Jones, Fferm Bryn Isa, Llannefydd, Dinbych, LL16 5EU

---

**<u>GORCHYMYN ARCHEB SEFYDLOG</u>**

Rhif Cyfrif Banc:………………………………………………………….. Côd Didoli: ___/___/___

At Reolwr Banc:…………………………………………………….ccc

Cyfeiriad y Banc:

…………………………………………………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………………………………

Côd Post:…………………………….

Taler i gyfrif: **CYMDEITHAS BRODWAITH CYMRU**

**Cyfrif Banc Rhif:** 50454370 **Côd Didoli:** 20/35/47 ym Manc Barclays, Stryd Fawr, Pwllheli, Gwynedd.

(Cyfeirnod:……….. - i'w lenwi gan y Gymdeithas )

y swm o **£5.00** (pum punt) yn flynyddol gan ddechrau ar 1 Ionawr, 20______


Llofnod:………………………………………………………………….…… Dyddiad……………………………………………

Enw Llawn:…………………………………………………………………………………………………….

Cyfeiriad:…………………………………………………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………….

Côd Post:………………………………….




**Enw**…………………………………………..

**AELODAETH am 2024**


# CANGEN Y GOGLEDD DDWYRAIN

Daeth gwahoddiad i'r rhanbarth greu arddangosfa o waith yr aelodau yn Sioe Dinbych a Fflint ym mis Gorffennaf a braf oedd gweld y diddordeb yn yr eitemau amrywiol iawn a grewyd yn ystod cyfarfodydd y gymdeithas.
Ar ddechrau'r tymor ym mis Medi, cawsom gyfle i groesawu Rhiannon Parry atom i'n harwain i greu brodwaith ar gyfer cardiau cyfarch. Rydym yn ffodus iawn o barodrwydd ein haelodau i rannu eu crefft ac arwain gweithdai i ni a chawsom Lilian Jones yn ein dysgu i wnïo bagiau wedi eu cwiltio yng nghyfarfod mis Tachwedd. Aelod arall, Gwerfyl Williams, oedd yn gyfrifol am gyfarfod mis Tachwedd, gyda gweithdy amserol ar wneud 'cracer' Nadolig. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i ddarfod y flwyddyn gyda chinio Nadolig blasus ym mwyty Nant y Felin, Llanrhaeadr, ddechrau Rhagfyr. Bu raid gohirio cyfarfod mis Ionawr oherwydd y tywydd ond dyma'r rhaglen am weddill y tymor:

Chwefror 17eg - Eirian Jones (brodwaith)
Mawrth 16eg - Eirlys Savage a Bethan (addurn y Pasg)
Ebrill 20fed - Angharad Rhys (clytwaith)
Mai 18fed – Julie Lloyd Owen (peintio a gwnio llun)







## GWAITH AELODAU CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN AC ARDDANGOSFA SIOE DINBYCH A FFLINT









# DWYFOR

O'r diwedd mae dosbarthiadau brodwaith wedi ail ddechrau ar ôl y clo a'r project cannoedd o gaeau Map y Degwm ynghyd a'u henwau!

Ar y 23 o Fawrth mae arddangosfa ym mwytu Dylan's lle bydd y gwaith yma yn cael ei arddangos Ynghyd a'r brodwaeithiau eraill mae merched yr ardal wedi bod yn brysur bwytho.

## SWYDDOGION Y GYMDEITHAS

**Mae sawl swydd eisiau ei llenwi os oes gan rhywun enw neu yn barod i dderbyn swydd cysylltwch ag Esyllt. Diolch yn fawr**

| | | |
|---|---|---|
| Sylfaenydd : Joyce Jones. | 01766 522085. | joyce@stitch.co.uk |
| Llywydd Cendelaethol : | | |
| Cadeirydd: Gwenfyl Jones. | 01745 890417 | meinididdos13@gmail.com |
| Is-gadeirydd: | | |
| Ysgrifennydd: Esyllt Jones. | 01792 898211. | jonesesyllt@ yahoo.com |
| Is- ysgrifennydd : | | |
| Trysorydd (dros dro) : Buddug Roberts | 01766 522497 | rhiwcriccieth@live.co.uk |
| Is-drysorydd: | | |
| Ysgrifennydd Aelodaeth: Eirian Jones | 01745 540325 | eirian.a.jones@btinternet.com |
| Golygydd y cylchlythyr: Gwenfyl Jones | 01745 890417 | meinididdos13 @gmail.com |
| ac Eleri Jones | 01745 583722. | hefin_eleri.jones@btinternet.com |

# Ysgoloriaeth Cymdeithas Brodwaith Cymru

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyriwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyriwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd. Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Rydym yn trefnu arddangosfa o waith yr aelodau bob blwyddyn pryd y caiff enillydd yr ysgoloriaeth gyfle i arddangos ei gwaith. I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â: Esyllt Jones, 01792 898211.
jonesesyllt@yahoo.com

**Aelodaeth**

Y ffordd fwyaf cyfleus o dalu eich tâl aelodaeth yw trwy archeb banc, am fod yn rhaid anfon ffurflen bob blwyddyn at y rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Gofynnir i bob cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol. Gobeithio'ch bod i gyd yn cenhadu er mwyn denu rhagor o aelodau!
Gofynnwn unwaith eto am gyfeiriad e-bost yr oll o'n haelodau sydd ag un er mwyn hwylustod.
Eirian Jones, 01745 540325.
Ebost - eirian.a.jones@btinternet.com

**Bwrsari ar gyfer ein haelodau**

Cofiwch fod y Gymdeithas yn cynnig arian i aelodau i'w galluogi i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1, 2 neu 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis. Byddai'n braf cael nifer ohonoch yn ymgeisio. Pe byddech yn llwyddiannus, byddai disgwyl i chi gynnal nifer bychan o weithdai ar ôl cwblhau'r cwrs, er mwyn rhannu'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu gydag aelodau eraill y Gymdeithas. Cofiwch fod y cymorth yma'n agored i bob oed. Felly beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifennydd ar unwaith.

**Lluniau**

Os ydych chi'n cynnal unrhyw fath o weithgaredd, cofiwch drefnu fod rhywun yn tynnu lluniau a'u hanfon i'r Golygyddion

**Cysylltwyr Lleol**

**Môn ac Arfon** - Gladys Pritchard 01407 762090
**Y De Ddwyrain** - Marian Evans 02920 843275
**Rhydaman** - Megan Bevan 01267 275461
**Meirionnydd** - Nesta Jones 01678 540610
**Canolbarth** - Eryl Evans 01970 820778
**Y Gogledd Ddwyrain** - Mary Mars Lloyd 01824 790276
**Dwyfor** - Meinir Lloyd Jones 01766 770745


**Defnyddiau brodio rhatach**


Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddaru'n gyson. Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i ni, dim ond i chi ddangos eich tocyn aelodaeth.
Silken Strands, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)
Siop D.E., Y Bala
Brethyn Blaenau, 33 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiiniog

Golygyddion y Cylchlythyr: Gwenfyl Jones ac Eleri Jones
Cyhoeddir gan Gymdeithas Brodwaith Cymru Argraffwyd gan Hywel Evans, 27 Trewen, Dinbych.

# Adroddiad Lowri James ar gyfer Cymdeithas Brodwaith Cymru.








Fy hoff ddarn o waith a greais yn fy mlwyddyn gyntaf oedd top camisole a oedd wedi ei hysbrydoli gan batrymau a delweddau a ddarganfyddais ym mhalas 'Hampton Court'. Yn gyntaf darluniais hi ar safle'r palas, gan ddogfennu unrhyw ddelwedd ddiddorol ac yna creais y darluniad gan gymysgu patrymau addurniadol gyda ffigwr a gymrais o dapestri oedd yn y neuadd fawr. Dewisais ddefnyddio gwlan yn bennaf, gan ddefnyddio'r dechneg syml o 'couching' i ddal y gwlan i lawr, weithiau yn defnyddio lliwiau cyferbyniol. Hefyd defnyddiais edau peiriant gwnio ar gyfer y rhannau tywyllach yn y dyluniad. Yn y prosiect yma dysgais sut i ddefnyddio ffram 'slate' a hefyd sut i drawsnewid lluniad manwl a haenog yn frodwaith.

Un darn o'r cwrs, wedi ei wahanu o'r prosiectau creadigol, oedd gwersi pwythau technegol lle roedd yn rhaid cyflawni pedair ffram yn dangos pedair techneg brodwaith wahanol. Yn y flwyddyn gyntaf y technegau oedd: pwythau craidd, 'blackwork', 'raisedwork' a 'goldwork'. Fy hoff dechneg a ddysgais oedd
'blackwork' oherwydd fod effaith y pwythau mor wahanol i unrhyw beth yr oeddwn wedi ei wneud o'r blaen. Hefyd mwynheais y ffram 'goldwork' am yr un rheswm.

Wrth ddysgu'r technegau yma, roedd pawb yn y grwp yn gweithio gyda'r un patrymau ac yna, ar ôl dysgu digon , roedd yn rhaid i bawb gymryd ei ddarluniad ei hun a chreu darn gan ddefnyddio'r dechneg. Yn y ffram pwythau craidd mae fy narluniad i yn eistedd yn y canol.

Dysgais yn y gwersi yma sut i gyflawni edrychiad manwl, cywir a traddodiadol o ran brodwaith. Cyn y gwersi, doeddwn i erioed wedi gwneud unrhyw frodwaith tri dimensiwn, nac wedi cyfri'r edau fel sydd angen ei wneud mewn 'blackwork'. Yn ogystal dysgais nifer o bwythau newydd a ffyrdd o weithio gyda mathau o edau gwahanol. Gyda'r wybodaeth yma roeddem yn cael ein hannog i ddefnyddio'r technegau mewn ffyrdd unigryw yn ystod y prosiectau unigol oedd yn cael eu rhoi i ni. Defnyddiais ran o'r arian a dderbyniais gan Gymdeithas Brodwaith Cymru tuag at y prosiectau yma i brynu deunyddiau ar gyfer y camisol ac ar gyfer y gwersi pwyth technegol.

Ar y foment dwi'n gweithio ar ffram arall 'goldwork', ac yn dysgu mwy o dechnegau yn ogystal â datblygu gwaith y flwyddyn diwethaf drwy ychwanegu lliw a gwrthrychau amrywiol. Dwi'n mwynhau hyn ar hyn a bryd, mae'n teimlo fel ffordd greadigol i ddefnyddio'r dechneg.



Ffram 'Blackwork'



Arluniad fy hun



Ffram 'Goldwork'



Brodwaith o arluniad fy hun



Ffram Pwythau Craidd




Cutwork





Y prosiect dwi'n gweithio arno ar y foment yw cyfres o samplau brodwaith ar gyfer casgliad ffasiwn i ddynion, wedi eu hysbrydoli gan lwyau caru Cymraeg. Dros yr haf roedd prosiect wedi ei osod iarchwilio'r thema o gasgliadau o wrthrychau ac ymwelais ag Amgueddfa Caerfyrddin i weld eu casgliad o lwyau cariad yn ogystal ag edrych ar rai oedd gan fy nheulu. Cefais fy nenu i'r gwrthrychau yma gan eu harddwch amlwg ond hefyd gan y teimlad o ddirgelwch sydd o ran eu hoedran a'r straeon cyfrinachol mae nhw'n eu cario.





Diolch eto am eich cymorth dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd yr arian yn help mawr wrth brynu deunyddiau o safon, ac yn rhoi cyfle i mi i ymweld ag arddangosfeydd celf a thecstiliau hynod o ddiddorol, fel Hilma Klimt yn y Tate Fodern, 'Crown to Couture' ym Mhalas Kensington ac eraill wnaeth fy ysbrydoli. Oherwydd eich haelioni roedd amser gen i i ffocysio ar fy ngwaith gan nad oedd angen i mi rannu fy amser rhwng gweithio swydd rhan amser a gwneud gwaith prifysgol. Arhosais yn Llundain ar ôl gorffen y tymor i wneud profiad gwaith byr yn 'Cosprop' sef storfa gwisgoedd ar gyfer ffilm a theledu ac roedd yr arian yn help mawr wedyn hefyd.

Dwi'n gobeithio y gallwn barhau'r berthynas yma. Roeddwn i'n falch o glywed am eich Cymdeithas, a byddaf yn gadael i chi wybod sut mae'r prosiect yn datblygu. Hoffwn ddysgu mwy am eich gwaith chi hefyd.

Dymuniadau gorau,

Lowri James.





Darlunio cychwynnol



Dechrau creu samplau a meddwl am lleoliad ar y corff.



Meddwl am ychwanegu edau metel dwi wedi gwnio i'r samplau



Llwyau Cariad

